**<u>PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC-05-02(cof)</u>**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad: | 26 Mehefin 2002 | |
| Amser: | 9.30am | |
| Lleoliad: | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol | |
| **Yn bresennol:** | | |
| Aelodau | Carwyn Jones (Cadeirydd) | Pen-y-bont ar Ogwr |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| | Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| | Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| Cynghorwyr i'r Pwyllgor | Kate Bennett | Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| | Dharmendra Kanani | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |
| | Alun Thomas | Comisiwn Hawliau Anabledd |
| | Derek Walker | Fforwm Lesbiaid, Hoywon a Phobl Ddeurywiol Cymru |
| Yn Cyflwyno i'r Pwyllgor | Dr Paul Chaney | Ymchwilydd Cyswllt, Prifysgol Caerdydd |
| | Ralph Fevre | Athro Ymchwil Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd |
| | Y Fonesig Rennie Fritchie | Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus |
| | Gloria Jenkins | Fforwm Lesbiaid, Hoywon a Phobl Ddeurywiol Cymru |
| | Yr Athro Teresa Rees | Cadeirydd y Grwp Llywio Ymchwil dros 'An Absolute Duty' |
| | Neil Wooding | Comisiwn Cyfle Cyfartal: Comisiynydd Cymru |
| Swyddogion | Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol |
| | Alistair Davey | Pennaeth y Gangen Perfformio a Datblygu |
| | Delyth Thomas | Uned Polisi Cydraddoldeb |
| | Michael Trickey | Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Gweithredol |

| | |
|---|---|
| Elisabeth Jones | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| Howell Rees | Clerc y Pwyllgor |
| James Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**

Papur: EOC-05-02(p1)

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod a chofnododd ddiolchiadau’r pwyllgor i’w ragflaenydd, Edwina Hart, am ei holl waith fel Cadeirydd y pwyllgor. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn edrych ymlaen at yr her o gadeirio’r pwyllgor a chyflawni gweledigaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Huw Lewis a Will Bee.
2. Cyflwynodd y Cadeirydd y newyddion diweddaraf i’r pwyllgor am ddatblygiadau’r ymgyrch cyflog cyfartal:

- Byddai’r arddangosfa symudol ar stondinau’r Cynulliad yn yr Eisteddfod Ryngwladol a’r Eisteddfod Genedlaethol a’r gobaith oedd y gallai’r arddangosfa gael ei defnyddio yn Sioe Frenhinol Cymru ac mewn digwyddiadau priodol eraill.
- Byddai seminarau ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, y sector Addysg Uwch ac awdurdodau lleol yn cael eu cynnal yn y canolbarth yn ystod Medi a Hydref 2002. Byddai’r Comisiwn Cyfle Cyfartal yn cynnal seminar ar gyfer CBI Cymru Wales ar 12 Medi 2002.
- Byddai ymgyrch drwy’r post, a fyddai’n cynnwys copi o’r CD-ROM ar gyflog cyfartal, yn cael ei hanfon i 500 o fusnesau y cafwyd eu cyfeiriadau gan Uned Cwmnïau Bach Prifysgol Caerdydd.
- Byddai pob llyfrgell gyhoeddus yn derbyn posteri a hysbyslenni ynghylch yr ymgyrch.
- Rhoddwyd cyflog cyfartal ar agenda seminar Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 12 Gorffennaf 2002.

1. Cododd y pwyllgor y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth ar adroddiadau llafar ac ysgrifenedig y Cadeirydd:

- Byddai’n ddiddorol mesur ymateb cyflogwyr pan dderbyniant y daflen drwy’r post ar yr ymgyrch cyflog cyfartal.
- Yr her nesaf i’r ymgyrch cyflog cyfartal, a’r Cynulliad yn benodol, oedd dechrau dylanwadu ar newidiadau yn y sector cyhoeddus.
- Hysbysodd y Clerc y pwyllgor nad oedd y Dirprwy Lywydd wedi rhoi ymateb eto ar fater hyfforddiant mewn cydraddoldeb i gadeiryddion pwyllgorau pwnc.

**Eitem 2: Cynllun Gweithredu Adroddiad McKenzie**

**Papur: EOC 05-02(p2)**

1. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Parhaol y papur i'r pwyllgor, gan amlygu tair thema:

- gweithredwyd 17 o argymhellion ar adeg yr adroddiad diwethaf i'r pwyllgor ym mis Ionawr 2002. Ar hyn o bryd mae 23 o'r argymhellion wedi eu gweithredu ond nid yw 2 o'r argymhellion archwilio wedi eu dechrau eto. Roedd 18 o argymhellion ar waith ar hyn o bryd a sicrhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol y pwyllgor y byddai'n ymroi i'w gweithredu.
- Roedd y strategaeth recriwtio a ystyriwyd gan y pwyllgor ym mis Ionawr wedi ei diwygio yng ngoleuni sylwadau a phryderon yr aelodau ac roedd bellach yn destun negodiadau gydag Ochr yr Undebau Llafur. Amlygodd canlyniadau'r ymgynghoriad ar y strategaeth fod gan y staff bryderon gwirioneddol ynghylch dileu'r cyfleoedd am ddyrchafiad mewnol. Ailddatganodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei ymrwymiad i recriwtio agored ond dywedodd fod ganddo ddyletswydd hefyd i ddatblygu'r staff presennol. Roedd trosglwyddiadau ochrol yn ffordd o ddatblygu staff tra gallai dyrchafiadau ddigwydd drwy recriwtio agored. Ni allai'r Ysgrifennydd Parhaol nodi'n bendant pryd y byddai'r gwaith o drosglwyddo i recriwtio agored yn cael ei gwblhau.
- Roedd y gwaith recriwtio Band F a wnaed i dreialu'r trefniadau arfaethedig wedi bod yn seiliedig ar gymhwysedd gydag ymgeiswyr yn mynychu canolfan asesu a chyfweliad. Ni ddefnyddiwyd profion seicometrig ar unrhyw gam o'r cynllun peilot a phrofwyd yr holl brofion mewn modd cyfartal. Nid oedd y cynllun peilot yn gyflawn eto ond hyd yma roedd 23 o bobl wedi cadarnhau eu bod wedi derbyn swyddi ac roedd 6 arall ar fin cael eu cwblhau. Byddai effeithiolrwydd y broses recriwtio a ddefnyddir gan gynnwys y defnydd o ganolfannau asesu yn cael ei werthuso yn awr.

1. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Dylid rhoi cymorth ymarferol i ymgeiswyr mewnol i sicrhau eu bod yn gallu cystadlu mewn ymarferion recriwtio agored. Byddai recriwtio agored yn gwella'r sefydliad ac yn rhoi cyfle i'r staff ddatblygu sgiliau i gystadlu am ddyrchafiadau.
- Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei ymrwymiad i argymhelliad 7 yn y cynllun gweithredu, y byddai 'pob swydd, beth bynnag fo'i gradd, yn cael ei hysbysebu ac y byddai'n agored i gystadleuaeth' yn cael ei weithredu. Pwysleisiodd fodd bynnag, fod hyn yn destun negodi gydag ochr yr Undeb Llafur o hyd.
- Croesawodd y pwyllgor ymrwymiad yr Ysgrifennydd Parhaol i weithredu'r cynllun gweithredu. Roedd yn bwysig bod y bwrdd gweithredol cyfan yn rhannu'r ymrwymiad hwn.
- Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol, fel y nodwyd yn argymhelliad 27, y dylai pob aelod o staff gael targed cydraddoldeb yn hytrach na tharged amrywiaeth.
- Dylid gweithredu argymhelliad 9 sef dod â recriwtio i raddau generig i ben a dylai pob swydd gael teitl a disgrifiad penodol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai'r union ffordd y câi hyn ei weithredu yn destun negodiadau gydag Ochr yr Undebau Llafur.
- Roedd yn bwysig diwallu anghenion ymgeiswyr a'r Cynulliad drwy recriwtio agored gyda'r nod o wneud y staff yn fwy adlewyrchol o'r bobl a wasanaethant.
- Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol mai dim ond mewn rhai swyddi, wedi eu pennu gan uwch reolwyr, yr oedd angen sgiliau dwyieithog a bod cystadleuaeth deg ac agored yn hanfodol i recriwtio. Cynhaliodd yr Ysgrifennydd Parhaol ddau seminar ar hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y

Cynulliad a phenodwyd Sanjiv Vedi i geisio cyrraedd grwpiau lleiafrifol, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg. Byddai'r cynllun iaith Gymraeg yn dylanwadu ar ofynion staffio'r Cynulliad ac roedd yn debygol y byddai mwy o swyddi dwyieithog yn dod ar gael. Roedd dau aelod o'r bwrdd gweithredol yn siarad Cymraeg yn rhugl ac roedd nifer o ddysgwyr ar y bwrdd. Sicrhawyd bod papurau ymgynghori a thaflenni ar gael mewn ieithoedd amgen lle bo hynny'n berthnasol.

- Cynhaliwyd arolygon ymadael ar gyfer pob aelod o staff oedd yn gadael y Cynulliad.
- Roedd yr Ysgrifennydd Parhaol yn ceisio lleihau nifer y staff achlysurol a gyflogwyd yn y Cynulliad. Er bod defnyddio gweithwyr dros dro yn briodol am gyfnodau byr o gyflogaeth, dylai staff parhaol lenwi swyddi parhaol.
- Cytunodd y pwyllgor i wahodd Roger McKenzie i gyfarfod yn nhymor yr hydref i drafod gweithrediad ei adroddiad **(pwynt gweithredu).**

**Eitem 3: Dyletswydd Absoliwt**

Papur: EOC 05-02(p3)

3.1 Gwnaeth Paul Chaney gyflwyniad (atodir yn Atodiad 1) i'r pwyllgor ar 'An Absolute Duty: Equal Opportunities and the National Assembly for Wales', adroddiad ymchwil a gomisiynwyd gan y comisiynau cydraddoldeb statudol ac a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Materion Cymreig. Y gobaith oedd y byddai'r adroddiad yn cael ei lansio ar 11 Gorffennaf 2002. Gwnaeth yr adroddiad grynhoi canfyddiadau'r ymchwil a ddangosodd fod dyletswydd cydraddoldeb y Cynulliad wedi cael dylanwad mawr. Roedd wedi cychwyn ystod eang o ddiwygiadau cydraddoldeb ac roedd agenda cydraddoldeb benodol yn dechrau dod i'r amlwg. Nododd yr astudiaeth ei bod yn rhy gynnar eto i asesu'r agenda cydraddoldeb newydd yn llawn yng Nghymru. Byddai angen gwneud ymchwil bellach i bennu effeithiolrwydd y diwygiadau hyn o ran canlyniadau cydraddoldeb mesuradwy. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion polisi a oedd yn galw am ymestyn y gwaith o gymhwyso dyletswydd cydraddoldeb 'model Cymru' yn ogystal â mesurau wedi eu llunio i gynyddu ei heffeithiolrwydd.

2. Gofynnodd yr Athro Teresa Rees i'r pwyllgor ystyried argymhellion yr adroddiad, a luniwyd i ymgorffori cydraddoldeb yn fframwaith y Cynulliad Cenedlaethol. Gallai'r pwyllgor helpu'r cyrff cydraddoldeb statudol hefyd i dynnu mwy o sylw at ddyletswydd cydraddoldeb y Cynulliad.
3. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Ystyriodd y pwyllgor ym mis Ionawr 2002 y côd ymarfer gwirfoddol ar sicrhau cyfle cyfartal drwy bolisi caffael y Cynulliad. Yn fuan wedi hynny estynnwyd cydymffurfiad â'r contract i'r rheini a oedd yn gwneud cais am grantiau ac arian a ddyfarnwyd i'r Cynulliad.
- I godi ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd cydraddoldeb, byddai'n bwysig llunio cysylltiadau y tu allan i grwpiau traddodiadol. Cynigiodd yr Athro Teresa Rees i drafod syniadau i godi ymwybyddiaeth o'r ddyletswydd gyda'r Cadeirydd a'r Clerc.
- Dywedodd Paul Chaney ei fod yn amlwg yn ôl sylwadau'r rheini a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr

adroddiad fod ymwybyddiaeth isel yn gyffredinol o ddyletswydd statudol y Cynulliad i hyrwyddo cyfle cyfartal ymhlith y grwpiau y bwriadwyd iddo eu helpu.

- Roedd yn bwysig bod yr holl is-ddeddfwriaeth a ystyriwyd gan y Cynulliad yn cydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb, er y cydnabuwyd na fyddai'r ddyletswydd yn cael effaith ar y rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth.
- Byddai'r Cadeirydd yn ystyried comisiynu papur ar ddatblygu argymhellion yr adroddiad ar gyfer cyfarfod yn ystod tymor yr hydref **(pwynt gweithredu).**

**Eitem 4: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar Gyfle Cyfartal**

Papur: EOC 05-02(p4)

4,1 Dywedodd y Cadeirydd y byddai adroddiad blynyddol y pwyllgor yn cael ei drafod mewn cyfarfod llawn yn ystod tymor yr hydref. Dywedodd y Cadeirydd fod y Clerc wedi diwygio'r adroddiad i ystyried sylwadau a wnaed yn y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor.

2. Cymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiad.

**Eitem 5: Trefniadau Gofal Plant yn y Cynulliad Cenedlaethol**

Papur: EOC 05-02 (p5)

1. Cyflwynodd Alistair Davey y papur a roddodd y newyddion diweddaraf i'r pwyllgor ar y trefniadau gofal plant presennol i staff y Cynulliad. Roedd dau fath o drefniadau gofal plant wedi eu sybsideiddio ar gael ar hyn o bryd i staff a oedd yn elwa hefyd ar nifer o ddewisiadau gwaith megis oriau gwaith hyblyg a gwaith rhan amser neu rannu swyddi. Roedd y trefniadau ar gyfer gofal plant o dan arolwg ar hyn o bryd ac roedd gweithredu system talebau yn cael ei hystyried. Trefnwyd diwrnod rhwydweithio i ofalwyr, gweithwyr rhan amser a merched fel rhan o'r arolwg.
2. Codwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Nid oedd trefniadau presennol y Cynulliad yn darparu ar gyfer gofal plant yn Gymraeg. Byddai darparu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei ystyried fel rhan o'r arolwg.
- Byddai'r digwyddiad rhwydweithio yn edrych ar yr hyn y gallai'r Cynulliad ei ddarparu i ofalwyr a staff â dibynyddion.
- Byddai cyflwyno talebau gofal plant yn rhoi'r opsiwn i staff ddod o hyd i ofal plant addas yn agos i'w cartrefi neu'n agos i'w lle gwaith. Roedd yn bwysig cael system talebau a oedd yn hyblyg gan ddarparu ar gyfer gofynion unigol staff, gan gynnwys staff y tu allan i Gaerdydd.
- Roedd trefniadau gofal plant i Aelodau'r Cynulliad a staff ategol yn fater i Bwyllgor y Ty. Cytunodd y pwyllgor y dylid sicrhau bod meithrinfa ar gael yn adeilad y Cynulliad Cenedlaethol i ymwelwyr.
- Ystyriodd y pwyllgor nad oedd 'dim newid' i'r trefniadau gofal plant presennol yn opsiwn

posibl.

- Roedd y costau a oedd yn gysylltiedig â darparu seibiant i ofalu am blant a chymorth ar gyfer gofal plant wedi eu gwrthbwyso yn erbyn buddiannau datblygu staff a galluogi merched i ddatblygu eu gyrfaoedd yn y Cynulliad.
- Byddai'n ddiddorol i'r pwyllgor hwn gysylltu â'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Strategaeth Gofal Plant Cymru.
- Roedd disgwyl i gontract presennol y Cynulliad gyda Meithrinfa Ddydd Lilliput barhau am dair blynedd arall a byddai'r trefniadau yn cael eu harchwilio fel rhan o'r arolwg.
- Gofynnodd y pwyllgor am wybodaeth am hyd y seibiant â thâl ar gyfer maethu a mabwysiadu plant ac am faint o seibiant y gallai rhieni ei gymryd mewn blwyddyn **(pwynt gweithredu).**

**Eitem 6: Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus**

1. Dywedodd y Fonesig Rennie Fritchie wrth y pwyllgor am ei gwaith fel Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Fe'i hailbenodwyd eleni am dair blynedd arall ac ychwanegwyd amrywiaeth at ei chylch gwaith. Roedd yr ymagwedd yng Nghymru tuag at benodiadau cyhoeddus yn strategol ac yn eithaf gwahanol i weddill y DU.
2. Derbyniodd y Comisiynydd fod rhagor o waith i'w wneud i ddarganfod yr hyn sy'n ysgogi pobl i dderbyn penodiadau cyhoeddus. Amlinellodd y Comisiynydd y gwaith a wnaethpwyd eisoes:

- Datblygwyd cynlluniau, mewn cydweithrediad â Swyddfa'r Cabinet, i annog grwpiau a thangynrychiolir i wneud cais am benodiadau cyhoeddus. Roedd cynlluniau prentisiaethau â thâl yn cael eu datblygu i alluogi unigolion i brofi gwaith byrddau. Byddai hyn hefyd yn helpu i gynyddu amrywiaeth y byrddau. Byddai'r cynlluniau hyn yn cael eu treialu mewn dwy adran o'r llywodraeth ac yn y rhanbarthau yn Lloegr.
- Lansiwyd cynllun cysgodi gwaith ym mis Tachwedd 2000 i alluogi pobl â diddordeb i arsylwi gwaith bwrdd ac i gysgodi cyfarwyddwyr anweithredol. Derbyniodd y cynllun adborth cadarnhaol a rhoddodd gipolwg defnyddiol i bobl ar rôl bwrdd. Gwnaeth tua thraean o'r rheini a oedd yn gysylltiedig â'r cynllun gais am benodiad cyhoeddus a phenodwyd tua thraean o'r ymgeiswyr hyn. Mae Comisiwn Cenedlaethol y Merched a Swyddfa'r Cabinet wrthi'n datblygu'r cynllun.
- Roedd Gweithrediaeth yr Alban wedi trefnu digwyddiadau allgyrch ledled yr Alban i annog merched i wneud cais am benodiad cyhoeddus. Roedd Gweithrediaeth yr Alban hefyd wedi mabwysiadu ymagwedd wedi ei chanoli tuag at y broses benodi er mwyn sicrhau cysondeb ac i ganiatáu i'r staff a oedd yn gysylltiedig â'r broses fagu profiad ac arbenigedd.
- Trefnodd y Comisiynydd ymrwymiadau rheolaidd ag ystod eang o grwpiau a sefydliadau ac roedd yn gweithio gyda Chomisiwn Cenedlaethol y Merched a'r Uned Merched a Chydraddoldeb ar ddigwyddiadau allgyrch i annog mwy o ferched i wneud cais am benodiadau. Roedd digwyddiadau amrywiol eraill ar y gweill hefyd gan gynnwys gweithio gydag undebau llafur a chyflogwyr i annog cenhedlaeth iau i gyfranogi yn y broses benodi.
- Roedd y Comisiynydd yn aelod o weithgor ar amrywiaeth a phenodiadau cyhoeddus a sefydlwyd gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet i archwilio syniadau radical y bwriadwyd iddynt newid y

broses benodi bresennol.

- Roedd y Comisiynydd wedi datblygu menter mentora mewn cydweithrediad â Chomisiwn Cenedlaethol y Merched.

1. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Roedd yn bwysig bod pobl anabl yn cael eu hannog i wneud cais am benodiadau cyhoeddus. Roedd y comisiynydd wedi trafod y mater hwn gyda Chadeirydd y Comisiwn Hawliau Anabledd, Bert Massie, ac wedi nodi peth pryder ymhlith pobl anabl y gallent golli budd-dâl anabledd pe baent yn cael tâl fel rhywun sydd wedi ei benodi'n gyhoeddus.
- Roedd y pwyllgor yn cydnabod y problemau ariannol a'r ymrwymiad o ran amser a oedd yn gysylltiedig â phobl hunangyflogedig yn dod yn bobl wedi eu penodi'n gyhoeddus. Yn aml, dim ond y rhai a allai fforddio ymgymryd â rôl gwasanaeth cyhoeddus oedd yn gwneud hynny.
- Er mwyn annog pobl o bob rhan o gymdeithas i wneud cais i ddod yn berson wedi ei benodi'n gyhoeddus, roedd angen cyhoeddusrwydd yn hytrach na hysbysebu. Gallai ffurfiau lleol a rhanbarthol ar y cyfryngau roi cyhoeddusrwydd i waith pobl sydd wedi eu penodi'n gyhoeddus i annog ceisiadau o bob rhan o gymdeithas.
- Cytunodd y Comisiynydd, fel mater o arfer gorau, y dylai ymgeiswyr a oedd yn cael eu gwahodd i ddod am gyfweliad gael adborth priodol.
- Gellid datblygu system rhestru i ddarparu rhwydwaith cymorth i ymgeiswyr aflwyddiannus a allai fod yn addas ar gyfer penodiadau yn y dyfodol. Dywedodd y Comisiynydd y gallai ymgeiswyr nodi diddordeb mewn math penodol o swydd a chael newyddlen yn amlinellu'r swyddi gwag priodol.
- Byddai'n ddiddorol mapio ystadegau ar gyfer penodiadau cyhoeddus i ddarparu data cywir ar ryw, rhywioldeb, anabledd ac unrhyw feini prawf perthnasol eraill. Byddai mapio yn amlygu unrhyw anghysondebau daearyddol hefyd a oedd yn effeithio ar ran o gymdeithas.
- Roedd y Comisiynydd wedi gweithio gyda Chynghrair Cenedlaethol i Ferched Cymru a chydag uned penodiadau cyhoeddus y Cynulliad ar ddigwyddiadau allgyrch.
- Byddai adroddiad blynyddol y Comisiynydd yn cael ei gyhoeddi mewn tair wythnos a byddai'n cynnwys y ffigurau diweddaraf ar gyfer Cymru gyda chymariaethau â Gogledd Iwerddon a'r Alban. Byddai'n ddefnyddiol i'r Comisiynydd ddychwelyd at y pwyllgor i drafod yr adroddiad blynyddol a sut y gallai'r pwyllgor fonitro penodiadau.

**Eitem 7: Fforwm Lesbiaid, Hoywon a Phobl Ddeurywiol**

1. Diolchodd Derek Walker o Fforwm Lesbiaid, Hoywon a Phobl Ddeurywiol Cymru y pwyllgor am wahodd y Fforwm i ddod yn wahoddedig sefydlog. Roedd y Fforwm yn unigryw gan mai hwn oedd yr unig sefydliad i hoywon a lesbiaid yn y DU wedi ei noddi gan y llywodraeth.
2. Oherwydd cyfyngiadau amser, gofynnodd y Cadeirydd i'r Fforwm roi cyflwyniad ehangach ar ei waith mewn cyfarfod yn ystod tymor yr hydref. Gofynnodd y pwyllgor am bapur ar waith y Fforwm i gyd-fynd â'r cyflwyniad **(pwynt gweithredu).**

**Eitem 8: Hawliau Dynol**

Papur: EOC 05-02(p6)

1. Cyflwynodd y Cadeirydd y papur a oedd yn dilyn argymhelliad Arolwg Gweithdrefn y Cynulliad y dylai'r pwyllgor ailystyried y cynnig i ymestyn ei gylch gwaith i gynnwys hawliau dynol. Dywedodd y Cadeirydd fod y papur yn arbennig o berthnasol gan fod y newidiadau diweddar i gyfrifoldebau gweinidogol yn golygu fod ganddo gyfrifoldeb dros gyfle cyfartal a hawliau dynol.
2. Codwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Roedd y pwyllgor eisoes wedi ymchwilio i'r mater hwn yn fanwl a daeth i'r casgliad na ddylid ymestyn ei gylch gwaith i gynnwys hawliau dynol.
- Roedd gan y pwyllgor ddyletswydd absoliwt i hyrwyddo cydraddoldeb ond roedd hawliau dynol yn ymwneud â sicrhau bod unigolion yn cydymffurfio â deddfwriaeth.
- Gallai'r baich gwaith ychwanegol a fyddai'n cael ei greu drwy ymestyn y cylch gwaith for yn ormod i'r pwyllgor.
- Cytunodd y pwyllgor fod angen mecanwaith effeithiol ar gyfer craffu ar y modd yr oedd y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad yn cydymffurfio â deddfwriaeth hawliau dynol, ond nad hwn oedd y fforwm gorau.
- Fel mater trawsbynciol, roedd hawliau dynol yn effeithio ar waith holl bwyllgorau'r Cynulliad ac nid oedd yn ofynnol cael pwyllgor wedi ei neilltuo yn arbennig i hyn.
- Roedd y pwyllgor yn cydnabod gwerth uno hawliau dynol â'r agenda cydraddoldeb yng nghyd-destun llywio gwaith y pwyllgor yn hytrach na'i reoli.
- Cytunodd y pwyllgor y dylid gwrthod y cynnig i ymestyn y cylch gwaith i gynnwys hawliau dynol a dywedodd y Cadeirydd y gallai'r pwyllgor adolygu'r sefyllfa yn ôl yr angen.

**Eitem 9: cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Papur: EOC 04-02(min)

1. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.
2. Rhoddodd y Clerc y newyddion diweddaraf i'r pwyllgor ar sefyllfa bresennol yr adolygiad o Sipsiwn Crwydrol. Roedd yr Ymgynghorydd Cyswllt yn llunio rhaglen o ymweliadau ar hyn o bryd i'r pwyllgor, a all gynnwys ymweliadau yn ystod toriad yr haf ac ymweliad i archwilio'r problemau a wynebir gan Sipsiwn Crwydrol yn Sioe Frenhinol Cymru. Roedd gwaith ar droed hefyd ar restr ddarllen a seminar posibl yn yr hydref gyda chynrychiolwyr o awdurdodau lleol a sefydliadau sydd â diddordeb yn bresennol.

**Eitem 10: Papur i nodi**

Papur: EOC 05-02(p7)

1. Nododd y pwyllgor y papur a chytunodd i wahodd y Comisiwn Hawliau Anabledd i drafod dangosyddion perfformiad llywodraeth leol yn fanylach mewn cyfarfod yn ystod tymor yr hydref **(pwynt gweithredu)**.
2. Nododd yr aelodau mai hwn fyddai cyfarfod pwyllgor olaf y Clerc. Diolchodd y pwyllgor i’r Clerc, Howell Rees, am y gwaith a gyflawnodd.
3. Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm.